BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICE BOARD

Dydd Gwener, 23 Medi 2016 10.00yb

COFNODION

Presennol	
Enw	**Sefydliad**
Ffion Johnstone (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng Dyfed Edwards	Cyngor Gwynedd
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf Cymru
Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Sian Purcell	Medrwn Môn
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Cyng Ann Griffiths	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn Mynychu	
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Llio Johnson	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Rhian Bayley-Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Sian Owen	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Euros Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sally Baxter	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Cyng Ieuan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn

2. Cofnodion a Materion yn Codi

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2016 yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

3. Cylch Gorchwyl

Cafwyd trafodaeth am y Cylch Gorchwyl drafft a nodwyd y pwyntiau isod

- Diffyg cyfeiriad at bolisi iaith y Bwrdd – angen ychwanegu cymal ar hyn
- Angen cryfhau pwynt 5.2 a chael cymal ychwanegol yn amlinellu trefniadau os nad oes cytundeb rhwng y partneriaid.
- Atodiad A, pwynt 4 – angen newid y fersiwn Saesneg i 'both plans will follow…'

Gweithred:	Llio Johnson i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl i gynnwys yr uchod
Gweithred:	Cadw'r Cylch Gorchwyl fel eitem sefydlog ar raglen y BGC I'r dyfodol

4. Cyflwyniad Partneriaid

a) Cafwyd cyflwyniad gan Euros Jones ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn esbonio sut oedd CNC yn ymateb i anghenion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Diolchodd Ffion i Euros am ei gyflwyniad.

Sylwadau:

- Gofynnwyd pryd fydd y pecyn ar gael i bob ardal. Nododd Euros y byddai'r pecynnau ar gael erbyn diwedd mis Tachwedd.
- Cytunwyd i anfon copi o'r pecynnau i aelodau'r Bwrdd pan fyddent wedi eu cyhoeddi
- Nododd Sian Williams nad yw amseriad ymgynghori Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyd-fynd gydag amserlen yr asesiad llesiant yn anffodus.

Gweithred:	Copi o'r pecynnau gwybodaeth i'w rannu gyda'r Partneriaid pan fyddent wedi eu cyhoeddi

b) Cafwyd adroddiad gan Sally Baxter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth Iechyd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu: - Byw'n Iach, Aros yn Iach: datblygu ein strategaeth

Diolchodd Ffion i Sally am ei chyflwyniad. Ymddiheurodd Sally fod y ddogfen yn uniaith Saesneg ac fe fydd cyfieithiad yn cael ei anfon ymlaen at aelodau'r Bwrdd unwaith y bydd wedi ei gyfieithu.

Sylwadau:

- Gofynnwyd am amserlen y gwaith - nododd Sally yn nad yw'r amserlen yn cyd-fynd gydag amserlen yr asesiad llesiant ond y bydd yr wybodaeth yn werthfawr i'r dyfodol.
- Nododd Sioned Rees fod nifer o drafodaethau gwahanol ar hyn o bryd yn y Gogledd. Mae holiadur ar wefan y Llywodraeth yn holi barn y cyhoedd am wasanaethau iechyd. Nododd Sioned fod trafodaethau ar y gweill i drafod sut i gyd-gordio'r ymgysylltu uchod gyda'r asesiad llesiant.
- Cwestiynwyd pam nad oedd cyfeiriad at wasanaethau dwys yn yr adroddiad – Nododd Sally nad oedd hyn yn yr adroddiad oherwydd roeddynt am ymgysylltu cyn ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Pwynt 1; Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb - Trafodwyd paratoi papur ychwanegol ar y pwynt hwn gan gynnwys yr angen i roi cyfrifoldeb iechyd yn ôl ar yr unigolyn. Fe fydd BIPBC yn ystyried hyn.
- Cafwyd trafodaeth ar y gwahanol ymgynghoriadau sydd yn digwydd ar yr un pryd a beth fyddai'r manteision i'r partneriaid fynd allan i ymgynghori ar yr un amser. Cytunwyd bod angen edrych ar hyn yn y dyfodol.

Gweithred:	BIPBC i ystyried llunio adroddiad penodol ar Wella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldeb
Gweithred:	BGC Gwynedd a Môn i gael trafodaeth bellach ar y nifer o ymgynghoriadau sy'n digwydd yng Ngwynedd a Môn ar draws y cyrff cyhoeddus.

5. Blaenoriaethau Allweddol - Diweddariad

BA1 – POBL HŶN

Cafwyd diweddariad gan Ffion Johnstone ar y maes gwaith hwn. Nodwyd fod adroddiad ar hyn o bryd yn cael ei baratoi gan Ruth Ellie yn amlinellu diffyg gwlâu EMI.
Cafwyd trafodaeth a ddylai'r maes yma barhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Penderfynwyd cadw'r blaenoriaethau nes y bydd yr Asesiad Llesiant wedi ei gwblhau a'r Bwrdd yn adnabod y rhaglen waith o fewn y Cynllun Llesiant.
Cytunwyd i gylchredeg yr adroddiad pan fydd wedi ei gwblhau.

BA2 – CREU TEULUOEDD CRYFACH

Cafwyd diweddariad gan Llio Johnson am y gwaith rhanbarthol sy'n digwydd yn y maes - fe fydd fersiwn drafft o'r Asesiad Poblogaeth, sy'n cael ei gynhyrchu yn rhanbarthol, yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Tachwedd. Fe fydd y data yma wedyn yn bwydo'r Asesiad Llesiant.

BA3 - CYMUNEDAU CYNALIADWY

Cafwyd diweddariad gan Dilwyn Williams am y maes gwaith 'Yr Iaith Gymraeg mewn gwasanaethau Cyhoeddus'. Roedd yr adroddiad yn nodi fod grŵp o Uwch Swyddogion bellach wedi ei sefydlu ac y byddent yn cyfarfod ym mis Hydref i symud y gwaith yma ymlaen. Nodir yn yr adroddiad y bydd y grŵp yn cynnal trafodaeth o gwmpas uchelgais y cyrff unigol, y ddyletswydd newydd a sut i'w weithredu.

Yn unol â phwynt BA1, cytunwyd i gadw'r flaenoriaeth yma hyd nes y bydd blaenoriaethau newydd yn cael eu pennu.

Rhannu Asedau - cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan Geraint Hughes ar y gwaith yma. Nid yw Geraint yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd bellach ac felly gofynnwyd i Llio Johnson drafod gyda Geraint pwy fyddai yn gallu arwain ar y gwaith hwn yn y dyfodol. Nododd Gwynne Jones ei fod wedi bod yn rhan o'r grŵp yma a bod gwaith da wedi ei wneud dan arweiniad Geraint. Gobeithir gallu parhau gyda hyn dan arweiniad newydd.

Gweithred:	Sian Owen i rannu adroddiad Ruth Ellie pan fydd wedi ei gwblhau
Gweithred:	Llio Johnson i drafod BA3 Rhannu Asedau gyda Geraint Hughes
Gweithred:	Cadw'r 3 blaenoriaeth gyfredol hyd nes y bydd blaenoriaethau newydd yn cael eu pennu yn dilyn cwblhau'r Asesiad Llesiant.

6. Blaen Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer 2017/2018

Rhannwyd papur gan y Cadeirydd yn trafod rhaglen waith y Bwrdd i'r dyfodol. Cafwyd trafodaeth am yr angen i gytuno sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu'n wahanol i'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol.

Trafodwyd ymestyn cyfarfod mis Rhagfyr er mwyn gallu cael trafodaeth estynedig am hyn ond penderfynwyd trefnu gweithdy yn ychwanegol i gyfarfodydd chwarterol y Bwrdd. Bydd hyn yn gyfle i drafod materion o ran yr Asesiad ond hefyd i gael trafodaethau pellach am faterion sydd eisoes wedi eu codi yn y cyfarfod heddiw megis ymgysylltu, toriadau cyllideb, cymunedau gwydn. Nodwyd hefyd bod angen egwyddorion cydweithio tynnach cyn penderfynu ar y blaenoriaethau.

Gweithred:	Sian Owen i drefnu gweithdy ym mis Ionawr

7. Asesiad Llesiant – Diweddariad ar yr ymgysylltu

Rhannwyd tablau'r asesiad gyda'r Bwrdd. Nodwyd fod cyflwyniad ardal Llyn eisoes wedi ei rhannu yn electroneg ac roedd copïau caled hefyd ar gael.

Cytunwyd i drafod canlyniadau ymgysylltu yn y gweithdy fis Ionawr.

Mae Is-grŵp wedi ei drefnu ar gyfer 11 Hydref 2016 i drafod y data yn derfynol cyn ei gyhoeddi. Fe fydd holiadur ar lein yn cael ei lansio ar y 1af o Dachwedd ac yn agored hyd at ddiwedd mis Rhagfyr. Nodwyd y bydd yr holiadur ar wefan annibynnol.

Gweithred:	• Cylchredeg yr holl ystadegau sydd yn cael eu cynnwys i wneud yn siŵr fod yr asiantaethau yn hapus gyda'r wybodaeth. • Symud y pennawd Iaith allan elfen Ddiwylliannol a'i gynnwys gyda Phoblogaeth.

8. Cefnogaeth reolaethol a gweinyddol

Cafwyd diweddariad gan Janet Roberts am y trafodaethau sydd wedi cymryd lle rhwng y ddau awdurdod. Nododd Janet fod 3 swydd wedi eu creu ar gyfer cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

- Rheolwr Rhaglen Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Swyddog Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Swyddog Gweinyddu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gobeithir fod hyn yn adlewyrchu ymroddiad y ddau awdurdod i lwyddiant y Bwrdd.

9. Gohebiaeth

Trafodwyd gwahoddiad i ddigwyddiad BGC yn Wrecsam ar y 7fed o Dachwedd a nododd Ffion Johnstone fod gwahoddiad i 4 aelod o'r Bwrdd. Gwahoddwyd enwebiadau i Llio Johnson.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cyfarfod nesaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn i'w gynnal 16 Rhagfyr , 2016 am 10am yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm